

Hanes cymhleth iawn yw hanes y Crynwyr a ffodd i America ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a cheisio sefydlu yno Jerwsalem newydd lle gallent addoli mewn heddchwch. Roedd y Crynwyr Cymreig a aeth yno gyda nhw yn rhan o'r cymhlethdod hwn. Eisoes roedd William Penn wedi prynu tir yn Siersi Newydd gyda golwg ar sefydlu gwlad lle byddai addoli yn gwbl rydd. Ond yn fuan iawn fe welodd nad dyma'r lle delfryddol i'w Arbrawf Sanctaidd, felly anfonodd betisiwn i'r Brenin Siarl yn gofyn am ad-daliad o ddyled enfawr oedd ar y brenin i'w ddiweddar dad, y Llyngesydd Penn. Roedd ateb Siarl yn gadarnhaol, yn wir yn awchus. Pa ffordd well o gael gwared â dyled mewn ffordd rwydd, ac ar yr un pryd cael gwared â nifer fawr o Grynwyr trafferthus?


Roedd y Crynwyr yng Nghymru eisoes yn rhan bwysig o Gymdeithas y Cyfeillion, yn anfon cynrychiolwyr i'w Cyrddau Blynyddol yn Llundain. Fe'u swynwyd nhw ar unwaith gan gynigion Penn. Wedi iddynt gael addewidion ganddo y byddai talaith rydd i Grynwyr Cymru gyda hawliau arbennig, aethant ati i gymryd opsiwn ar 40,000 erw yn y dalaith. Cawsant ar ddeall gan y Llywodraethwyr y byddai eu tiroedd yn ffurfio un bloc, ac y byddai hawl ganddynt i benderfynu pob ymrafael a dadl yn eu ffordd eu hunain, heb boeni am gyfreithiau mewn iaith ddiieithr. Cawsant addewid hefyd y byddai'r Rhandir yn agos iawn i Philadelphia fel bod trafniadaeth a marchnata yn hwylus, gyda ffyrdd rhydd a ffeiriau cyfleus.

O'r 40,000 erw a gymerwyd ganddynt ar opsiwn, fe gymerwyd 30,000 ar unwaith. Ond roedd yna 10,000 erw ar ôl, a'r Crynwyr yn ôl yng Nghymru braidd yn araf yn penderfynu mentro drosodd. Yn lle aros ychydig, fe benderfynodd Penn a'i asiantwyr werthu'r 10,000 i unigolion eraill, rhai heb fod yn Grynwyr a rhai heb fod yn Gymry. Dyna ar unwaith ddifetha amcanion yr ymfudwyr Cymreig.

Ar y dechrau, doedd hi ddim yn ymddangos fod y Cymry'n gweld hyn mor drychinebus â hynny. Roedd ganddyn nhw ffydd yn addewidion Penn, a dyma fynd ati'n ddiymdroi i sefydlu eu llywodraeth eu hunain. Gan mai heddychwyr oedden nhw, doedd arny'n nhw ddim angen llawer o gyfreithiau. Pe bai anghytuno'n codi ynghylch tir ac ati, eu ffordd nhw oedd trin y broblem mewn ffordd ddemocrataidd drwy eu Cyrddau Crynwyr. Roedd ganddynt wrthwynebiad cydwybodol i lysoedd barn. Os

Dafydd Lloyd

Tad Cyfraith Cyfandir
Rhan I



Tudalen o lyfr nodiadau Dafydd Lloyd

oedd y sawl oedd wedi tramgwyddo yn parhau i wneud drwg, byddai ei dramgwydd yn cael ei sgrifennu i lawr a'i hoelio ar ddrws y Tŷ Cwrdd i bawb gael gweld.

Gaeaf oer iawn oedd y flwyddyn ddilynol, 1683. Roedd Thomas Lloyd, Dolobran, newydd ddod drosodd, ac fe ddaeth ar unwaith yn arweinydd. Cyn bo hir roedd y Cymry wedi anfon at Penn i gwyno fod yna ddryswch mawr ynghylch lleoliad eu tiroedd. Dywedodd Thomas wrth y Perchennog fod ei asiantwyr wedi anwybyddu ei addewidion i'r Cymry.

A dyna ddechrau'r

ymrafaelion rhwng y ddwy ochr.

Yn nechrau'r 80'au roedd y cyfreithiwr ifanc, David Lloyd o Fanafon, wedi mynd i weithio yn swyddfeydd Llundain i gyfreithwyr William Penn. Er ei fod yn perthyn i Lwydiaid Dolobran mae'n amlwg fod ei amgylchiadau'n llawer tlotach nag eiddo ei gefndryd, Charles a Thomas. Ysgol Ramadeg fu ei unig addysg ffurfiol, ond bu'n ddigon ffodus i gael hyfforddiant yn y gyfraith yn swyddfa Syr George Jeffreys, a ddaeth wedyn yn Brif Farnwr Lloegr, ie, y gŵr hwnnw ddaeth yn farnwr drwg-enwog.

Ei waith cyntaf i Penn oedd

llunio gweithredoedd, gwarant- au a throsglwyddo eiddo i brynwyr cyntaf y tir yn Pennsylvania. Gwaith digon diflas oedd hyn oherwydd roedd y brenin yn bygwth gwneud y trefedigaethau trafferthus yn fwy dibynnol ar y goron ac am ddod â deddfau 'quo warranto' yn eu herbyn. Roedd gan Grynwyr Pennsylvania nifer o elynion yn Llywodraeth Lloegr ac, er cystal cyfeillgarwch Penn a'r brenin, roedd arno ofn colli ei siarter berchnogaeth yn dilyn yr ymrafaelion yn Pennsylvania. Gwyddai mai'r Crynwyr o Gymru oedd achos pennaf yr anfonlonrwydd yno. Dyna pam y rhoddwyd y comisiwn o Dwrnai Cyffredinol i'r gŵr ifanc, David Lloyd. Hwyrach ei fod yn tybio y byddai Cymro, un oedd yn deyrngar iddo ef, yn gallu dod â'r Cymry anystywallt at eu coed. Ar y pryd nid oedd David Lloyd yn Grynwr, a hwyrach fod Penn yn ystyried hyn yn fantais arall, oherwydd gallai ddbiynnu felly ar ei deyrngarwch i'w fuddiannau ef.

Felly yn gynnar yn y flwyddyn 1686, fe welwyd David Lloyd a'i wraig, Sarah, yn bordio'r Amity yn Llundain, y ddau'n cychwyn i'r wlad ddiarth dros y don.

Beth welson nhw wrth gyrraedd Philadelphia? Tref brysur ar lan afon Delaware, y ffermwyr yn cario'u nwyddau tua'r glanfeydd, yn gwerthu i farsiaidiwyr neu i gapteniaid y llongau yn yr harbwr. Uwchben y traeth a'r doc roedd tafarn y *Blue Anchor*, canolfan busnes Philadelphia. Ger glan yr afon roedd Tŷ Cwrdd newydd ei godi. Cyngor Tref Philadelphia oedd yn rheoli diwrnod pawb, gyda chloch yn cyhoeddi dechrau a diwedd diwrnod gwaith ac amser bwyd. Roedd yr hwyrghloch yn cael ei chanu am naw, gyda dynion yn mynd o

(parhad ar dud 7)



Cytundeb Penn â'r Indiaid